| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Ebrill 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl** |
| **Teitl:** | **Manylion Dylunio Man Gwyrdd Gorllewin y Rhyl (Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl)** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am y Man Gwyrdd sy'n rhan annatod o Brosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl a'r goblygiadau posibl ar gyllidebau refeniw.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cymeradwywyd Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl gan y Cyngor yn eu cyfarfod ar 11 Medi 2012, lle dirprwywyd y cyfrifoldeb am ddarparu'r prosiect gyda'i gyllideb gysylltiedig i Fwrdd y Prosiect. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £23,279,266 i ddarparu'r prosiect cyffredinol, heb unrhyw ofyniad am gyllid cyfalaf gan Gyngor Sir Ddinbych. Fel rhan o'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Chyngor Sir Ddinbych, mae'r Cyngor yn arwain ar ddatblygu'r man gwyrdd. Yn eu cyfarfod ar 25 Mawrth 2014, bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad yn argymell:

- Cymeradwyo cynllun manwl o'r man gwyrdd
- Cymeradwyaeth ar gyfer y strategaeth arfaethedig ar gyfer delio â goblygiadau refeniw cynnal a chadw'r man

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio ar gynnydd yr elfen hon o Brosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl, a'r goblygiadau ar gyfer cynnal a chadw parhaus a ffynonellau ariannu posibl

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar y cynnydd a wnaed gyda chyflwyno Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl yn gyffredinol a'r elfen man gwyrdd yn benodol.

## 4 Manylion am yr adroddiad

### 4.1 Cefndir Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl

Mae Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl wedi bod yn destun cymeradwyaeth Grŵp Buddsoddi Strategol, y Cabinet a'r Cyngor yn flaenorol. Drwy'r dull partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn nod y prosiect yw:

***Creu cymdogaeth ddeniadol lle y bydd pobl sy'n gweithio eisiau byw***

1. ***Creu marchnad dai gytbwys nad yw'n cael ei dominyddu gan un math o dai neu gan un math o ddaliadaeth.***
2. ***Creu cymuned gytbwys, sefydlog gyda mwy o bobl economaidd weithgar yn byw yn y gymdogaeth.***
3. ***Gwella ymddangosiad a chanfyddiad yr ardal.***

Mae manylion am y cynnydd gyda'r prosiect yn gyffredinol ynghlwm fel **Atodiad 1**. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â chreu'r man gwyrdd newydd. Fel rhan o'r cytundeb partneriaeth rhwng tri phrif bartner y prosiect, mae'r cyfrifoldeb am ddatblygiad y man gwyrdd yn gorwedd gyda'r Cyngor. Mae'r cyfrifoldeb am gyflwyno elfennau tai y prosiect cyffredinol yn gorwedd gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alyn a Llywodraeth Cymru.

**4.2 Y Man Gwyrdd**

Mae'r dyluniad ar gyfer y man gwyrdd ynghlwm fel Atodiad 2. Mae'r man gwyrdd yn ceisio cyflawni'r awydd ers tro yn y gymuned ar gyfer mannau gwyrdd agored yn yr ardal. Gwnaed addewid i'r gymuned y byddai dyluniad y Man Gwyrdd yn cael ei hybu gan y gymuned, ac mae nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned wedi'u cynnal sy'n cael eu nodi yn yr adroddiad sydd ynghlwm fel Atodiad 3. Yn dilyn y Gorchymyn Prynu Gorfodol llwyddiannus mae'r holl eiddo sy'n ofynnol i gyflawni'r man gwyrdd yn eiddo i'r Cyngor gan sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau i gyflawni'r man gwyrdd. Bydd gwaith dymchwel yr holl adeiladau yn y Man Gwyrdd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2014 a fydd yn galluogi gwaith i ddechrau ar y man gwyrdd yn haf 2014 a chael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2015.

Ni all datblygiad y Man Gwyrdd gael ei weld ar wahân i weddill y prosiect gan ei fod yn rhan annatod o lwyddiant a marchnadwyedd yr eiddo cyfagos. Gyda hyn mewn golwg, mae cydbwysedd manwl i gyflawni dyheadau'r gymuned ar gyfer y man agored, annog buddsoddiad preifat ond heb roi baich cynnal a chadw parhaus trwm ar gyllidebau'r Cyngor sydd wedi'u hymestyn. Bydd creu'r parc yn creu argraff fwy positif o'r dref yn gyffredinol ac felly yn cael buddiannau adfywio pellach.

**4.3 Goblygiadau Cynnal a Chadw**

Ystyriaeth allweddol y cynllun a ddatblygwyd ar gyfer y man gwyrdd fu i leihau'r goblygiadau cynnal a chadw. Fodd bynnag, mae'n gyfleuster newydd nad oedd yn bodoli o'r blaen ac felly bydd ganddo rai canlyniadau cynnal a chadw/refeniw. Mae manylion pellach am y rhain ynghlwm fel Atodiad 4. Gan weithio gydag adran Cynnal a Chadw Tiroedd y Cyngor yr amcangyfrifon cynnal a chadw cyfredol yw:

- £2,130 y flwyddyn ar gyfer glanhau (casglu sbwriel, ac ati)
- £10,660 y flwyddyn ar gyfer cynnal a chadw tiroedd (torri glaswellt, ac ati)

Bydd y costau glanhau yn ofynnol o 1 Ebrill 2015, ond mae contract cynnal a chadw 5 mlynedd wedi'i adeiladu i mewn i'r contract cyfalaf ar gyfer y man gwyrdd felly ni fydd gofyniad am y costau £10,660 y flwyddyn nes fis Ebrill 2020.

Yn gyffredinol, mae'r cynllun man gwyrdd yn debygol o greu arbediad refeniw cyffredinol ar gyfer y Cyngor. Mae costau mewn perthynas ag ymdrin â thipio

anghyfreithlon eisoes wedi gostwng yn ddramatig yn yr ardal, a dylai'r gostyngiad yn y nifer o Dai Amlfeddiannaeth hefyd gynhyrchu arbediad gyda llai o ofynion trwyddedu a monitro. Ar ben hynny, mae trigolion a oedd yn byw mewn llety o ansawdd gwael (llawer gyda lleithder a/neu heb wres) wedi eu hailsefydlu mewn llety o ansawdd da a reolir yn well. Er ei bod yn amhosibl ei fesur oherwydd ei fod yn fesur ataliol, dylai hyn weld gostyngiad mewn ymyrraeth barhaus gan y gwasanaethau cymdeithasol.

O ystyried y sefyllfa ariannol bresennol, rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd i leihau'r goblygiadau cynnal a chadw/refeniw i'r Cyngor, ac mae'r syniadau canlynol yn cael eu hymchwilio:

- Mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru i ariannu cyfnod cynnal a chadw 10 mlynedd (yn hytrach na 5 mlynedd) wedi'i adeiladu i mewn i'r contract gwaith.
- Yn ystod y cyfnod hwn, bydd datblygu cyfrifoldeb cymunedol a/neu sefydliadau eraill yn cael ei wneud
- Posibilrwydd o gyflwyno taliadau gwasanaeth ar unrhyw gartrefi newydd a adeiladir o amgylch y parc.
- Trosglwyddo perchnogaeth y tir i sefydliad arall e.e. Cymdeithas Tai/Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol

Gobeithio y bydd un, neu gyfuniad, o'r systemau uchod yn mynd i'r afael â goblygiadau refeniw y prosiect, ond os na, y sefyllfa wrth gefn yw:

- Mae dyraniad refeniw o £2,130 yn cael ei drosglwyddo o gyllideb Datblygu Economaidd a Busnes i Strydwedd Cyngor Sir Ddinbych, yn dechrau 1 Ebrill 2015, er mwyn sicrhau bod yr ardal yn cael ei glanhau'n iawn o'r diwrnod cyntaf ar ôl cwblhau. Noder bod trafodaethau yn dal ar y gweill i sefydlu a ellir lleihau neu amsugno'r gost hon o fewn cyllidebau Strydwedd presennol;
- Mae dyraniad refeniw o £10,660 yn cael ei drosglwyddo o gyllideb Datblygu Economaidd a Busnes CSDd i Strydwedd Cyngor Sir Ddinbych, yn dechrau ym mis Ebrill 2015, er mwyn sicrhau bod yr ardal yn cael ei chynnal a'i chadw'n iawn ar ôl diwedd y contract cynnal a chadw 5 mlynedd.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1: Blaenoriaeth 1 – Datblygu'r Economi Leol a'n Cymunedau
Drwy greu cymuned gytbwys bydd y prosiect yn lleihau amddifadedd yn y rhan hon o orllewin y Rhyl – un o ganlyniadau allweddol y flaenoriaeth. Bydd yn delio â'r cysyniadau negyddol o'r ardal, hybu hyder yn y sector breifat yn y Rhyl, ac ysgogi buddsoddiad pellach gan y sector breifat a hyder yn y Rhyl i greu swyddi newydd a chyfleoedd busnes.

5.2: Blaenoriaeth 6 – Sicrhau bod tai o ansawdd dda ar gael
Bydd y prosiect yn cael effaith uniongyrchol ar y canlyniad blaenoriaeth "cynnig amrediad o fathau a ffurfiau o dai...i ddiwallu anghenion unigolion a theuluoedd". Bydd ychwanegu man gwyrdd yn union wrth eu hymyl yn gwneud yr eiddo hyn yn ddymunol iawn.

## 6: Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

*Efallai* y bydd y prosiect yn effeithio ar wasanaethau'r Cyngor os yw'r dewisiadau amgen ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn methu. Bydd yn cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth a'r effeithiau ar yr amgylchedd drwy ddarparu rhywogaethau planhigion a fydd yn annog bioamrywiaeth. Mae effeithiau mannau gwyrdd agored ar iechyd a lles pobl yn cael ei ddogfennu'n dda.

**6.1 Adnoddau Cyfalaf**
Nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau cyfalaf Sir Ddinbych gan fod yr holl gostau cyfalaf yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru.

**6.2 Adnoddau Refeniw ac arbedion cost presennol**
Gweler 4.3 uchod.

**7 Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a wnaed o effaith y penderfyniad hwn ar gydraddoldeb?**
Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ynghlwm fel Atodiad 5.

**8 Pa ymgynghoriadau a gafodd eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**
I gael manylion am y broses ymgynghori, gweler Atodiad 3. Mae'r cynllun hefyd wedi ei ddatblygu drwy ymgynghori â'r canlynol:

- Comisiwn Dylunio Cymru
- Grwpiau Ardal yr Aelodau y Rhyl
- Grŵp Budd-ddeiliad a Sefydlwyd
- Priffyrdd, Gwasanaethau Amgylcheddol, Bioamrywiaeth CSDd
- Bwrdd Prosiect Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl
- Gweithdai Asesu Effaith ar Iechyd
- Bwrdd Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen
- Sustrans
- Cyngor Tref y Rhyl

**9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dylai'r cyngor osgoi lle bynnag y bo modd cymryd canlyniadau refeniw y prosiectau cyfalaf a ariennir yn allanol. Mae'r Cyngor yn berchen ar y tir ar hyn o bryd oherwydd defnyddio ei bwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol i gefnogi'r datblygiad.

Mae adran 6 yn gwneud y pwynt y bydd y broses o greu man gwyrdd yn lleihau costau eraill yn yr ardal, a phe bai'r prosiect yn gyffredinol yn llwyddiannus, efallai y bydd gostyngiadau cost pellach ar gyfer gwasanaethau eraill.

Byddai'r cyfandaliad cyfalaf arfaethedig gan Lywodraeth Cymru yn galluogi ceisio ariannu amgen, â sefyllfa wrth gefn yr Adran Datblygu Economaidd wedi cytuno i'w gynnwys o fewn eu cyllideb os oes angen oherwydd y pwysigrwydd y maent yn ei roi ar y prosiect.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae cofrestr risgiau wedi'i chynnwys yn Atodiad 6

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000
Adran 226 a 227 Deddf Cynllunio Gwlad A Thref 1990
Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972
Mae Erthygl 6.3.2(c) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau Craffu o ran y mater hwn

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Proseicct Gwella Tai Gorllewin y Rhyl
Tel: 01824 706493